Cofrestru a Mewngofnodi

Sut mae cofrestru i gael cyfrif?

Ewch i borth cyllid Celfyddydau Ymdrochol a rhowch eich cyfeiriad e-bost i mewn er mwyn dechrau. Bydd cod dilysu yn cael ei anfon atoch drwy e-bost. Rhowch y cod yma i mewn i brofi pwy ydych chi, ac yna gallwch greu cyfrinair diogel.







Beth os ydw i wedi anghofio fy nghyfrinair?

Os ydych chi wedi anghofio'ch cyfrinair, cliciwch "Wedi anghofio’r cyfrinair" ar y dudalen

mewngofnodi a dilynwch y camau i'w ailosod.





Sut alla i ddiweddaru fy ngwybodaeth mewngofnodi?
Gallwch newid eich e-bost neu’ch cyfrinair unrhyw bryd. Ar ôl mewngofnodi, cliciwch ar eich proffil yn y gornel dde uchaf a dewis "Proffil" i wneud newidiadau.



Creu Ceisiadau a’u Cyflwyno

Sut mae creu cais?

Ar ôl mewngofnodi, ewch i'r adran "Gwneud Cais" a chliciwch ar "Cychwyn eich cais." Bydd hyn yn eich arwain drwy’r dasg o lenwi'r meysydd gofynnol ym mhob tab.





Alla i olygu cais sy'n bodoli?

Gallwch, gallwch ddychwelyd at eich ceisiadau sydd wedi'u cadw ar unrhyw adeg cyn eu cyflwyno. Cliciwch ar enw’ch cais neu dewiswch "Golygu" o'r ddewislen sydd drws nesaf i’ch cais.



Sut mae cyflwyno fy nghais?

Unwaith y bydd yr holl feysydd gofynnol wedi'u cwblhau, cliciwch ar "Cyflwyno" ar unrhyw dab i gwblhau'ch cais.



Adolygu'ch Cais

- Gwiriwch yr holl wybodaeth a'r ffeiliau atodedig yn fanwl.
- Defnyddiwch y nodwedd rhagolwg i weld sut bydd eich cais yn ymddangos i'r rhai fydd yn edrych drwyddo.



Atodiadau a Fformatiau

Alla i fformatio fy nhestun?

Gallwch, mae opsiynau fformatio testun sylfaenol fel print trwm, italig a phenawdau ar gael.

Sut alla i aildrefnu atodiadau?

Gallwch newid trefn eich atodiadau sydd wedi'u huwchlwytho drwy ddefnyddio'r botymau saeth sydd wrth ochr pob atodiad.

Gofynion Fformat Ffeiliau
Er mwyn gwneud y broses adolygu mor esmwyth â phosib, gwnewch yn siŵr fod pob dogfen sy'n cael ei chyflwyno yn bodloni'r gofynion canlynol ar gyfer fformat ffeiliau:

Dogfennau testun: PDF, DOC
Lluniau: JPEG, PNG
Fideos: MP4, MOV
Sain: MP3, WAV
Gwnewch yn siŵr fod pob ffeil wedi'i henwi'n glir ac yn cyfateb i'r adran benodol y mae'n berthnasol iddi yn y cais.

Cyflwyno Fformatau Hygyrch

Gallwch gyflwyno ceisiadau mewn fformat testun, sain neu fideo. Os byddwch yn dewis sain neu fideo, mae opsiynau uwchlwytho yn y ffurflen. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn y canllawiau sy'n cael eu darparu ar faint a fformat ffeiliau.

Cael Cymorth

Os oes angen cymorth arnoch, cysylltwch â thîm Celfyddydau Ymdrochol, mae'r manylion cyswllt isod a hefyd ar gael ar dudalen mewngofnodi'r porth neu ar ddangosfwrdd eich cais. Cysylltwch drwy e-bost neu dros y ffôn ar gyfer unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'ch cais neu'r platfform.

anfonwch e-bost aton ni – info@immersivearts.uk neu ffoniwch neu anfonwch neges destun ar 07926699909.